

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneirin Bevan, Deintyddfa
Bridges**

28 Awst 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	16
6.	Y Camau Nesaf.....	17
	Atodiad A.....	18

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Bridges yn 6 Heol Casnewydd, Cil-y-coed, Sir Fynwy, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 28 Awst 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Bridges yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Cil-y-Coed, Sir Fynwy. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Deintyddfa Bridges yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG. Mae gan y practis gontract â'r bwrdd iechyd i ddarparu triniaeth ddeintyddol frys y GIG i gleifion sydd heb gofrestru â'r practis.

Roedd Deintyddfa Bridges yn bractis hyfforddi gynt ar gyfer deintyddion gyda Deoniaeth Cymru (Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion). Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd gan y practis un deintydd a wnaeth gwblhau blwyddyn sylfaen o hyfforddiant deintyddol yn ddiweddar. Yn sgîl hyn, roedd y deintydd dan sylw wedi cael ei gyflogi gan y practis ac nid oedd cynlluniau ar y gweill i dderbyn deintydd arall dan hyfforddiant.

Mae tîm o staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd, un therapydd deintyddol, chwe nyrs a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol. Mae'r practis hefyd yn cynnal rhai ymweliadau yn y cartref ar gyfer cleifion sy'n cael trafferthion i gyrraedd y practis.

4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Deintyddfa Bridges yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion yn holiaduron AGIC. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi ar gyfer cleifion mewn modd diogel. Canfuom fod pob ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus. Gwelsom hefyd fod gan y practis systemau i helpu diogelu cleifion rhag y risg o groes-heintio. Yn y sampl o gofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod safon cadw cofnodion yn dda.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion, ond gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau i'r polisiâu. Yn ystod arsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm.

Gwelsom fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Ar y cyfan, mae mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion yn holiaduron AGIC. ' Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael casglu barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 18 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Ar y cyfan, roedd adborth gan y cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn gan y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y cleifion hynny a oedd wedi profi rhywfaint o oedi nad oedd hyn yn digwydd yn aml. Ymhlith sylwadau'r cleifion (a gyflwynir yma gyda chaniatâd y rheini a wnaeth gwblhau holiaduron AGIC) roedd:

"Rydw i bob amser wedi bod yn fodlon iawn ar yr holl driniaeth rwyf wedi ei derbyn yn y practis hwn wrth bob un yn y tîm."

"Bob amser yn ofalgar ac yn llawn cydymdeimlad, yn rhoi apwyntiad imi ar gyfer unrhyw waith brys yn ôl yr angen."

"Mae safon y gwasanaethau deintyddol rydw i wedi'u derbyn dros y blynyddoedd yn uchel bob amser."

"Rydw i bob amser wedi bod yn fodlon iawn â'r driniaeth rydw i wedi'i derbyn. Rydw i'n ymddiried yn y deintydd ac yn y cyngor a roddir."

"Practis proffesiynol iawn, sy'n cael ei redeg yn dda iawn."

"Mae'r holl dîm yn gyfeillgar ac yn gwrtais iawn."

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwnaethom gadarnhau bod rhif cyswllt mewn argyfwng ar neges peiriant ateb y practis a'i fod hefyd wedi'i arddangos tu allan i'r practis.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, ac roedd hyn yn galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal â mewn argyfwng. Dywedwyd wrthym fod y practis yn sicrhau bod lle yn cael ei gadw ar yr amserlen bob dydd er mwyn gallu darparu triniaeth frys i gleifion.

Roedd taflenni gwybodaeth ar gyfer cleifion ar gael yn y dderbynfa ac roedd rhain yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y practis. Nid oedd gan y practis wefan, ond roedd gwybodaeth sylfaenol ar gael drwy wefan y bwrdd iechyd.

Roedd gan y practis ddeintydd a oedd yn siarad Cymraeg, ac roedd cleifion yn gallu cael triniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl eu dymuniad.

Roedd gan y practis system ar waith i gasglu barn cleifion. Gwelsom ganlyniadau manwl arolwg a gynhaliwyd ymhlith cleifion preifat y practis, ac roedd rhain hefyd yn cynnwys agweddau cyffredinol ar y practis. Dywedwyd wrthym fod y deintyddion sylfaen yn cynnal arolygon ymhlith cleifion bob blwyddyn, fel mater o drefn. Oherwydd nad oedd y practis yn bwriadu cyflogi deintydd sylfaen arall, gwnaethom argymhell y dylent sicrhau bod arolygon rheolaidd cleifion preifat a chleifion y GIG yn parhau i gael eu cynnal yn y practis.

Awgrymwyd y dylai'r practis ystyried sut y gallent sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, gellid defnyddio maint ffont/testun mwy a darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion. Y rheswm am hyn yw bod y Safonau Iechyd a Gofal yn datgan bod yn rhaid i gleifion dderbyn gwybodaeth lawn, hygyrch a dealladwy am eu gofal mewn iaith a dull sy'n sensitif i'w hanghenion.

Pan wnaethom ofyn am y broses gwyno yn y practis, dywedodd 11 allan o 18 o gleifion nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwelsom fod gweithdrefn gwyno'n cael ei harddangos ym man aros y cleifion. Fodd bynnag, roedd angen iddi gael ei diweddarau, ac rydym wedi gwneud argymhelliad ynghylch hyn yn adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn (tudalen 14). O ystyried sylwadau'r cleifion, dylai'r practis ystyried sut y gellid sicrhau bod y wybodaeth ynghylch cwynion yn fwy amlwg.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi ar gyfer cleifion mewn modd diogel. Canfuom fod pob ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus. Gwelsom hefyd fod gan y practis systemau i helpu diogelu cleifion rhag y risg o groesheintio. Yn y sampl o gofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod safon cadw cofnodion y cleifion yn dda.

Cyfleusterau Clinigol

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol holl ystafelloedd triniaeth y practis a gweld eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Roedd pob un o'r ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus.

Gwelsom dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio. Gwnaethom hefyd edrych ar wiriadau a gynhaliwyd ar y peiriant sy'n darparu aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth (cywasgydd), a chanfod ei fod wedi cael ei wasanaethu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth fod gwiriadau dyddiol/rheolaidd yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr, oherwydd nid oedd rhain yn cael eu cofnodi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cofnodi gwiriadau rheolaidd ar y peiriant cywasgu (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr).

Dadheintio Offer

Nid oedd gan y practis ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd yr offer glanhau yn cael ei wahanu rhywfaint, am fod rhai o'r peiriannau sterileiddio wedi'u gosod mewn ystafelloedd ar wahân, ond roedd y broses o lanhau cyfarpar fel arfer yn digwydd yn yr ystafelloedd triniaeth.

Gwelsom gynlluniau manwl ynghylch addasu un o'r ystafelloedd storio lawr llawr i fod yn ystafell ddadheintio benodol. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar y gweill i ymgymryd â'r gwaith hwn yn ystod 2016/2017.

Ar y cyfan, er nad oedd y dull ar gyfer glanhau offer yn y practis yn ddelfrydol, gwnaethom ganfod bod trefniadau addas ar waith i atal cleifion rhag croesheintio. Gwelsom fod llyfrau cofnodi wedi'u cwblhau ynghylch profi'r cyfarpar glanhau a'i gynnal a'i gadw bob dydd er mwyn sicrhau bod yr offer yn cael eu

glanhau'n effeithiol. Roedd hefyd system addas ar gyfer sicrhau bod offer yn cael eu defnyddio o fewn y cyfnod storio a argymhellir.

Oherwydd bod mwy nag un nyrs yn cynnal y broses o ddadheintio'r offer bob dydd, gwnaethom gynghori bod y blychau a ddefnyddir ar gyfer cario offer glân ac offer brwnt yn cael eu labelu'n fwy clir er mwyn osgoi unrhyw ddryswch a allai arwain at groes-heintio.

Gwelsom dystiolaeth fod gan staff gofnodion hyfforddiant unigol mewn dadheintio, ond gwnaethom gynghori'r practis i ofyn i staff lofnodi'r cofnodion hyn yn y dyfodol, fel cadarnhad eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant hwn.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ystod Ebrill 2015 ac wedi defnyddio'r dull a ddatblygwyd gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru⁴. Hefyd, gwelsom fod gan y practis gynllun gwella o ganlyniad i'r archwiliad, ac roeddent wedi rhoi hwn ar waith. Dywedwyd wrthym hefyd bod y practis yn defnyddio dull archwilio rheoli heintiau arall i gynnal archwiliadau tua bob tri mis.

Offer radiograffig (pelydr-X)

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd y ddogfennaeth berthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennau gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol mewn ymbelydredd ïoneiddio. Gwelsom hefyd fod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys manylion yr offer a'r gweithdrefnau pelydr-X y dylai staff eu dilyn, ar gael a'i fod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol.

Gwnaethom sylwi bod arwyddion bach iawn yn rhybuddio am amlygiad i ymbelydredd ar ochr drysau'r ystafelloedd triniaeth, ond roedd rhain yn anodd eu gweld a gwnaethom argymhell y dylai'r practis sicrhau bod yr arwyddion hyn yn weledol. Y rheswm am hyn yw bod Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 yn nodi y dylai digon o arwyddion addas gael eu harddangos i rybuddio am ardaloedd ymbelydredd/ardaloedd sy'n cael eu goruchwyllo yn ogystal ag arwyddion i ddisgrifio manau a reolir yn y rheolau lleol.

⁴ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod arwyddion addas sy'n rhybuddio am ymbelydredd mewn mannau a reolir yn hawdd eu gweld.

Gwaredu gwastraff

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu yn briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol ar waith.

Meddyginiaeth ac offer meddygol mewn argyfwng

Roedd cyfarpar dadebru a meddyginiaeth ar gael i staff pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Gwelsom fod cyfarpar dadebru a meddyginiaeth a ddefnyddir yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio. Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal gwiriadau wythnosol i sicrhau bod offer dadebru a'r feddyginiaeth a ddefnyddir mewn achosion brys yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd rhain wedi cael eu cofnodi. Hefyd, gwelsom fod meddyginiaeth i'w defnyddio mewn argyfwng (glwcagon) yn cael ei chadw mewn oergell gyffredin. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gyfeirio at ganllawiau'r gwneuthurwr ynghylch storio, oherwydd mai'r arfer gorau yw cadw'r holl offer a'r feddyginiaeth, a ddefnyddir mewn achos brys mewn un lle fel y gellir cael hyd iddo yn hawdd pe bai argyfwng (yn unol â chanllawiau Cyngor Deintyddol Cyffredinol y DU). Pe byddai meddyginiaeth yn cael ei storio mewn oergell gyffredin, byddai angen monitro'r tymheredd, a gwnaethom hysbysu'r practis ynghylch hyn. Gwelsom dystiolaeth bod staff y practis wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis weithiwr cymorth cyntaf cymwys a phenodedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion gwiriadau wythnosol a gynhelir ar yr offer dadebru a'r feddyginiaeth a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan Gyngor Dadebru y DU.

Dylai'r practis ailystyried y trefniadau ar gyfer storio glwcagon (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr).

Dylai'r practis sicrhau bod staff ar gael sy'n meddu ar gymhwyster hyfforddiant mewn cymorth cyntaf.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cludo'r offer dadebru mewn argyfwng wrth iddynt ymweld â chleifion yn y gymuned, a oedd wedi cael ei ddarparu gan y bwrdd iechyd ac yn cael ei rannu rhwng nifer o bractisau yn yr ardal. Nid oedd

yr offer hwn yn cael ei gadw yn y practis, felly nid oeddem yn gallu ei weld yn ystod yr arolygiad.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar gyfanswm o wyth cofnod claf ymhlith cleifion y deintydd a'r hylenydd. Ar y cyfan, gwelsom fod y cofnodion o safon dda. Roedd gweithdrefnau triniaeth ac opsiynau yn cael eu hegluro i'r cleifion ar lafar, ac roedd y cleifion yn derbyn cynllun triniaeth. Roedd gan y practis system addas ar waith ar gyfer gwirio ffurflenni hanes meddygol, ac roedd y deintyddion yn eu cydlofnodi. Gwelsom dystiolaeth bod sgrinio ar gyfer canser y geg yn cael ei gynnal fel mater o drefn, a bod hyn yn cael ei esbonio i'r cleifion.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion, ond gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau i'r polisiâu. Yn ystod arsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm.

Dau brif ddeintydd y practis yw cydberchnogion annibynnol y practis. Roedd rheolwr practis profiadol yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg mewn ffordd effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith, ac roedd system addas ar gael i sicrhau bod y polisiâu hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod y staff yn ymwybodol ohonynt. Fodd bynnag, gwelsom y dylid gwneud y gwelliannau canlynol:

- Gwelsom fod polisi gan y practis a oedd yn cynnwys trefniadau ynghylch diogelu preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion, ond nid oedd hyn yn mynd i'r afael â sut y byddai urddas cleifion yn cael ei gynnal.
- Gwnaethom edrych ar y polisi iechyd a diogelwch a chanfod nad oedd hwn yn cynnwys trefniadau ar gyfer darparu a defnyddio'r offer gwaith a ddarperir yn y practis.
- Roedd angen diweddarau'r polisi diogelu oedolion er mwyn iddo gynnwys ystyriaethau diogelu cyffredinol, yn ogystal â chapasiti galluedd iechyd meddyliol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddarau'r polisiâu perthnasol fel eu bod yn cynnwys:

- ***Manylion ynghylch sut y dylai urddas cleifion gael ei gynnal***
- ***Polisi cynhwysfawr ynghylch diogelu oedolion***
- ***Trefniadau ar gyfer darparu a defnyddio cyfarpar gwaith.***

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd ffurfiol y practis yn cael eu cynnal, yn fras, bob dau neu dri mis. Gwelsom gofnodion cyfarfod ym mis Ionawr 2015, ond gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi mwy o fanylion gan gynnwys pwy oedd yn eu mynychu fel y gellir cyfeirio at hyn yn ddiweddarach. Hefyd, gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi'r holl gofnodion o'r cyfarfodydd ffurfiol a gynhaliwyd.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer arfarnu'r staff yn y practis, a dywedwyd wrthym fod rhain yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl staff.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau llywodraethu clinigol a oedd ar waith yn y practis. Gwelsom fod y practis yn cynnal amrywiaeth o archwiliadau a bod rhai o'r archwiliadau hyn yn cael eu cynnal gyda phracticisau eraill, megis archwiliad sicrhau ansawdd ar gyfer pelydrau-X. Roedd y practis hefyd wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau gydag Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, ac wedi cynnal nifer o gyfarfodydd fel practis er mwyn trafod y goblygiadau a'r gwelliannau sydd eu hangen o ganlyniad i hyn. Golygai hyn fod gan y practis drefniadau llywodraethu clinigol addas ar waith i helpu sicrhau ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir.

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi cael cwrs cynefino cyffredinol yn y practis, ond nad oedd hyn wedi cael ei gofnodi a gwnaethom gynghori'r practis i wneud hyn yn y dyfodol. Gwelsom enghreifftiau o ddatblygiad proffesiynol personol parhaus (hyfforddiant) a gwblhawyd gan staff yn y practis, a oedd yn dangos bod staff wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Gwelsom fod y staff wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ond nad oeddent wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai staff perthnasol gwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis.

Ar adeg ein harolygiad, canfuom nad oedd gan bob deintydd dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi gwneud cais am dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Er nad yw'n orfodol i staff y practis gael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwelsom dystiolaeth bod gan staff eraill y practis wiriadau gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel rhan o'u gwiriadau cyn iddynt ddechrau gweithio.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau. Dywedwyd wrthym fod gan y practis drefniadau i gynnig cymorth iechyd galwedigaethol drwy'r bwrdd iechyd. Gwelsom gofnodion i ddangos bod yr holl staff clinigol, ac eithrio un, wedi cael brechiadau priodol i'w gwarchod rhag firysau a gludir yn y gwaed megis Hepatitis B. Nid oedd cofnod

imiwneiddio un o'r nyrsys ar gael am fod hwn wedi cael ei anfon at bractis arall, ond dywedwyd wrthym fod yr aelod yma o staff wedi derbyn brechiadau yn ddiweddar. Gwelsom ei fod yn aneglur yn un cofnod brechiadau p'un a oedd angen dos cyfnerthol ai peidio, a gwnaethom hysbysu'r practis i roi sylw i hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod y cofnod imiwneiddio ar gyfer un aelod o staff yn dod i law a bod copi ohono yn cael ei gadw.

Dylai'r practis egluro'r cofnodion imiwnedd ar gyfer un aelod o staff ynghylch statws ei imiwnedd a hefyd a oes angen unrhyw ddosau cyfnerthol ar staff, i'w hamddiffyn rhag firysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed.

Gwnaethom hefyd gynghori'r practis i sicrhau bod gwiriadau ychwanegol ar waith er mwyn nodi nad yw aelodau staff clinigol newydd wedi'u heintio'n barhaol â hepatitis C neu HIV, yn unol â chanllawiau'r GIG yn ymwneud â chliriadau iechyd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gwnaethom edrych ar sut yr ymdriniwyd â chwynion wrth gleifion yn y practis, a gwnaethom ganfod bod trefniadau ar gyfer cofnodi ac ymateb i bryderon. Gwelsom fod yr ohebiaeth yn ymwneud â chwynion yn cael ei chadw gyda'i gilydd mewn ffeil bapur, ond gwnaethom gynghori'r practis i ddefnyddio'r daflen grynhoi a oedd ar gael er mwyn helpu gydag adolygu a threfnu'r cofnodion yn fwy clir. Dywedwyd wrthym fod cwynion ar lafar a chwynion anffurfiol yn cael eu nodi'n briodol.

Gwnaethom edrych ar y broses gwynion a gwelsom fod angen i'r poster cwynion sy'n ymddangos yn y dderbynfa gael ei ddiweddarau er mwyn sicrhau bod yr amserlenni ynghylch cydnabod ac ymateb i gwynion yn cydymffurfio â gweithdrefn gwyno'r GIG a elwir yn 'Gweithio i Wella' a bod Rheoliadau'r Ddeintyddiaeth Breifat yn gyson â'r amserlenni a ddarperir yn y polisi. Gwnaethom sylwi hefyd bod angen diweddarau'r polisi a'r poster cwynion er mwyn iddynt gynnwys sefydliadau eraill y gall cleifion gysylltu â nhw pe bai ganddynt bryder, gan gynnwys AGIC, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid diweddarau'r poster gwyno er mwyn sicrhau bod yr amserlenni'n gyson â'r polisi cwynion ac yn cydymffurfio â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG a'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Dylai'r polisi a'r poster cwynion gael eu diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys manylion cyswllt AGIC, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned.

Ansawdd yr Amgylchedd

Canfuom fod y practis, yn ôl pob golwg, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Ar y cyfan, mae mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Lleolir y practis yng nghanol tref Cil-y-coed, mewn bwthyn wedi'i addasu. Mae gan y practis bedair deintyddfa, tair sydd wedi'u lleoli ar y llawr cyntaf ac un ar y llawr gwaelod. Nid oes maes parcio dynodedig gan y practis ond mae maes parcio cyhoeddus gerllaw. Dywedwyd wrthym hefyd bod parcio i'r anabl ar gael tu allan i fynedfa'r practis.

Ar y cyfan, mae mynediad i'r practis yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn, ond mae'n bosibl y gallai'r drysau mewnol greu anawsterau i rai cadeiriau olwyn mawr. Nid oes lifft i'r llawr cyntaf oherwydd y prinder lle yn yr adeilad, ond gellid trin cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a chleifion sydd ag anawsterau symudedd yn yr ystafell driniaeth ar y llawr gwaelod. Dywedwyd wrthym fod y practis yn rhoi triniaeth i nifer o gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn heb anhawster.

Dangosodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn ôl pob golwg. Roedd gan y practis ardaloedd penodol lle gallai staff newid a pharatoi lluniaeth. Roedd holl ardaloedd y practis i'w gweld yn lân, yn daclus, ac wedi'u goleuo'n ddigonol drwyddi draw.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis yn nodi'r oriau agor, y rhif cyswllt mewn argyfwng, ac enwau a chymwysterau pob deintydd. Roedd rhestr brisiau ar gyfer triniaethau i gleifion y GIG a chleifion preifat wedi'i harddangosyn yr ardal aros.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi'u harchwilio'n briodol. Nid oedd archwiliad manwl o systemau eraill ar gyfer amddiffyn tân yn rhan o'r arolygiad hwn; fodd bynnag, cyfrifoldeb y practis yw sicrhau bod mesurau a systemau addas ar waith i amddiffyn staff a chleifion pe byddai tân.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel, ac roedd copïau wrth gefn yn cael eu cadw'n briodol. Gwelsom fod peth gwybodaeth am gleifion megis eu cynlluniau triniaeth a'u ffurflenni hanes meddygol yn cael eu cadw mewn cypyrddau y tu ôl i ddesg y dderbynfa ond nad oedd modd eu cloi. Gwnaethom drafod hyn â pherchnogion y practis, ond roeddent o'r farn bod ganddynt drefniadau eraill ar waith i sicrhau diogelwch yr wybodaeth hon. Argymhellir bod y practis yn parhau i adolygu'r trefniadau hyn.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Bridges yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Deintyddfa Bridges

Dyddiad yr arolygiad: 28 Awst 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
	-			
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal			
8	Dylid cofnodi gwiriadau rheolaidd o'r peiriant cywasgu (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr). [Safonau Iechyd a Gofal 2.9]			
9	Dylai'r practis sicrhau bod arwyddion addas sy'n rhybuddio am ymbelydredd mewn manau a reolir yn hawdd eu gweld. [Safonau Iechyd a Gofal 2.1; Rheoliadau Ymbelydriadau Ioneiddio 1999 – 18 (1) (a) a			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	(ii)]			
10	<p>Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal ar yr offer dadebru a'r feddyginiaeth a ddefnyddir mewn achosion brys yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan Gyngor Dadebru y DU.</p> <p>Dylai'r practis ailystyried y trefniadau ar gyfer storio glwcagon (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr).</p> <p>Dylai'r practis sicrhau bod staff penodedig ar gael sy'n meddu ar gymhwyster hyfforddiant mewn cymorth cyntaf.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.9; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.6; Cyngor Dadebru'r DU – canllawiau gofal deintyddol sylfaenol]</p>			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
12	<p><i>Dylai'r practis ddiweddarau'r polisiau perthnasol fel eu bod yn cynnwys:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Manylion ynghylch sut y dylai urddas cleifion gael ei gynnal • Polisi cynhwysfawr ynghylch 			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>diogelu oedolion</p> <ul style="list-style-type: none"> Trefniadau ar gyfer darparu a defnyddio cyfarpar gwaith. <p>[Safonau Iechyd a Gofal 4.1, 2.7, 2.9; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6]</p>			
13	<p>Dylai staff perthnasol gwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.7]</p>			
14	<p>Dylai'r practis sicrhau bod y cofnod imiwneiddio ar gyfer un aelod o staff yn dod i law a bod copi ohono yn cael ei gadw.</p> <p>Dylai'r practis hefyd egluro'r cofnodion imiwnedd ar gyfer un aelod o staff ynghylch statws imiwnedd yn ogystal ag egluro a oes angen unrhyw ddosau cyfnerthol ar staff, i'w hamddiffyn rhag firsau sy'n cael eu cludo yn y gwaed.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.4; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2]</p>			
14	<p>Dylid diweddarau'r poster cwyno er mwyn sicrhau bod yr amserlenni'n gyson â'r polisi cwynion ac yn cydymffurfio â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG a'r rheoliadau ar</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>gyfer deintyddiaeth breifat.</p> <p>Dylai'r polisi a'r poster cwynion gael eu diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys manylion cyswllt AGIC, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chyngor Iechyd Cymuned.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 6.3; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011 adran 15; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.3; Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Unioni Cam) (Cymru)]</p>			
Ansawdd yr Amgylchedd				
	-			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):.....

Teitl:

Dyddiad: